FFEDERASIWN YSGOL DYFFRYN DULAS CORRIS AC YSGOL PENNAL

Ysgol Gynradd Pennal,
Pennal,
Machynlleth,
Powys
SY20 9JT
01654 791225

Ysgol Dyffryn Dulas,
Corris,
Machynlleth,
Powys,
SY20 9TQ
01654 761622

Nia.Thomas@dyffryndulas.ysgoliongwynedd.cymru
Nia.Thomas@pennal.ysgoliongwynedd.cymru

## GWAITH COED YN NOSBARTHIADAU SYLFAEN Y FFEDERASIWN

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod y bydd eich plant yn cychwyn yn fuan ar wneud gweithgareddau gwaith coed. Credwn fod hwn yn gyfrwng gwych i'r plant weithio gydag e, ond rwy'n siŵr y bydd yn peri syndod i rai ohonoch glywed ein bod ni am ganiatáu i'r plant ddefnyddio offer go iawn fel morthwylion a llifiau! Hoffem gymryd y cyfle hwn i egluro pam ein bod ni o'r farn bod gwaith coed yn weithgaredd mor bwysig, ac i dawelu'ch meddyliau drwy egluro mai diogelwch y plant yw ein prif flaenoriaeth.

Gweithgaredd arbennig iawn yw gwaith coed, un sy'n denu sylw plant ac yn cwmpasu'r holl feysydd dysgu a datblygu. Mae plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r her, ac yn mwynhau gweithio â phren ac offer.

Bydd plant yn datblygu cydsymud corfforol, sgiliau symud bras a manwl, a chydsymud llaw a llygad. Byddant yn dysgu am gysyniadau mathemategol megis siapiau a mesur, ac yn datblygu sgiliau meddwl mathemategol. Yn ogystal, byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r byd, trwy ddysgu am offer sylfaenol, yn dod i ddeall pren fel deunydd, ac yn cael y cyfle i weld nifer o gysyniadau gwyddonol fel olwyn yn troelli, sut mae defnyddio lifer i dynnu hoelen, neu ddril i greu twll mewn pren. Byddant yn ehangu eu geirfa gyda therminoleg newydd ac yn defnyddio iaith i fynegi syniadau ac i ddatrys problemau. Gall plant datblygu sgiliau gwneud marciau trwy lunio syniadau ar bapur a phren. Ond mae yna feysydd lle mae gwaith coed yn rhagori fel gweithgaredd.

Yn gyntaf, mae'n datblygu hunanwerth a hyder y plant. Mae'r profiad o weithio gydag offer i greu rhywbeth yn eu grymuso, ac yn ffordd dda i ddatblygu agwedd rhagweithiol. Yn ail, mae gwaith coed yn dda iawn am ddatblygu sgiliau meddyliol plant - eu sgiliau creadigol a dychmygol, yn ogystal â'u sgiliau datrys problemau a beirniadol. Mae pren yn gyfrwng sy'n gofyn am bob un o'r uchod! Diogelwch yw ein blaenoriaeth ar bob adeg. Glynwn at ganllawiau diogelwch llym; e.e. mae'n rhaid i'r plant gwisgo sbectol diogelwch ar bob achlysur, a bydd oedolyn yn goruchwylio'r llifo ar gymhareb 1:1. Wrth gwrs, nid yw'n bosib dileu'r holl elfennau peryglus - bydd yna ambell glais - ond er mwyn datblygiad y plant mae'n bwysig iddyn nhw ddysgu sut i reoli risg, a sut i ddiogelu eu hunain fel bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ddelio â sefyllfaoedd o bob math. Edrychwn ymlaen at ddangos yr hyn mae eich plant wedi ei greu i chi - ond cofiwch mai'r peth mwyaf pwysig yw'r sgiliau sy'n datblygu y tu mewn i'ch plentyn!

Mae plant yn llwyddo defnyddio llawer iawn o adnoddau mewn ardal gwaith coed, a'r her fwyaf ydy ail stocio! Buasem yn ddiolchgar iawn pe gallech gyfrannu darnau **bach** (offcuts) o goed meddal fel pinwydd ac adnoddau eraill fel caeadau poteli fel poteli cwrw a llaeth a chyrc (corcyn nid plastig plîs) poteli gwin. Mae plant yn gallu uno llawer iawn o bethau gyda'i gilydd yn gyflym iawn, felly buasem yn gwerthfawrogi eich help gyda hyn er mwyn sicrhau fod stoc parhaus ar gael yn ardal y gwaith coed.



Holwch aelod o staff os oes unrhyw gwestiynau gennych chi. Diolch.

Mrs Nia Wyn Thomas-Evans

*Pennaeth*

FFEDERASIWN
YSGOL DYFFRYN
DULAS CORRIS AC
YSGOL PENNAL

Ysgol Gynradd Pennal,
Pennal,
Machynlleth,
Powys
SY20 9JT
01654 791225

Ysgol Dyffryn Dulas,
Corris,
Machynlleth,
Powys,
SY20 9TQ
01654 761622

Nia.Thomas@dyffryndulas.ysgoliongwynedd.cymru
Nia.Thomas@pennal.ysgoliongwynedd.cymru

## WOODWORK IN FOUNDATION CLASSROOMS WITHIN THE FEDERATION

Dear Parents / Carer

We're writing to let you know that the children will soon be starting woodwork. We believe this is a wonderful medium for children to work with but I'm sure a few of you may be surprised that we allow the children to use real tools – such hammers and saws! So we wanted to take this opportunity to explain why we think woodwork is such an important activity and reassure you that safety is always prioritised.

Woodwork is one of those really special activities that truly engages children and encompasses all areas of learning and development. Children really respond to the challenge and very much enjoy working with wood and real tools.

It encompasses so much learning – children will be developing their physical coordination, fine and gross motor skill and hand eye coordination; they will learning basic mathematical concepts, such as shape and measure and develop their mathematical thinking skills; they will be developing their understanding of the world – seeing tools as basic technology, understanding wood as a material and observing many scientific concepts such as the rotation of a wheel, levering nails back up or using a drill to drill holes; They will be developing their language with new vocabulary, using language to talk about their ideas and to problem solve; and children can develop their mark-making and drawing to express ideas on paper and also mark on the wood itself.

But there are two areas where woodwork really excels. Firstly it develops children's self-esteem and confidence – it is really empowering for children to create with real tools and they take great delight in their achievements - it really develops a can-do spirit, and secondly it develops children's thinking skills –their creative and critical thinking as they problem solve and express their imaginations with wood – which is not easy to work with! In terms of safety, this is prioritised at all times. We adhere to strict guidelines such as the children must wear safety glasses at all times and sawing is only ever done with 1:1 adult supervision. Of course we cannot eliminate all risk, and there will be the occasional bruised thumb, but part of children's development is that they need to learn to manage risk and make judgements to protect themselves so they are better able to make decisions in all situations that life presents.

Children manage to get through a lot of resources with woodwork and our biggest challenge is keeping up with demand. We would very much like to encourage you to help out by bringing in any offcuts of soft wood such as pine and other resources such as bottle tops, corks and lids. They really can join a lot together quite quickly so we need on-going help with this!



Please ask a member of staff if you have any question. Thank you.

*Mrs Nia Wyn Thomas-Evans*

*Headteacher*